



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gwasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon

Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Adroddiad cryno ymgynghoriad ar wasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod sy'n preswyllo fel arfer yng Ngogledd Iwerddon

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am sylwadau ar y cynnig y byddai Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn darparu mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon ar sail gyfartal â menywod sy'n preswyllo yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 9 Chwefror 2018.

Y Cefndir

Mewn dadl ar Araith y Frenhines ar 29 Mehefin 2017, cefnogodd dros 50 o Aelodau Seneddol o wahanol bleidiau alwad dan arweiniad y Blaid Lafur am ganiatáu i fenywod o Ogledd Iwerddon ddefnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd y GIG yn Lloegr.

Anfonodd y Gwir Anrhydeddus Justine Greening AS, y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau, lythyr at bob Aelod Seneddol ar 29 Mehefin ynghylch darparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn Lloegr i fenywod o Ogledd Iwerddon. Bydd y gost yn cael ei hariannu drwy Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth, gan ganiatáu i'r Adran Iechyd gomisiynu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn Lloegr ar gyfer menywod o Ogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi cyflwyno darpariaeth er mwyn i fenywod o Ogledd Iwerddon allu defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn yr Alban.

Yn sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog yn y Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2017, dywedodd Carwyn Jones yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddarparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru i fenywod o Ogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai menywod o Ogledd Iwerddon allu cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd yn yr un modd â menywod sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau gan bob un â buddiant yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau hyn fel a ganlyn:

Mae Adran 12 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Bwrdd Iechyd Lleol i ymarfer unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006. Mae'r swyddogaethau hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau eraill ar gyfer gofalu am fenywod beichiog.

Gall Gweinidogion Cymru wneud Cyfarwyddyd ysgrifenedig sy'n newid y prawf preswyllo arferol o dan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009, er mwyn galluogi dinasyddion y DU sy'n preswyllo fel arfer yng Ngogledd Iwerddon ac sydd am y tro yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol, i gael eu trin pe baent yn preswyllo fel arfer yn ardal y Bwrdd at ddibenion cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd.

Ymgysylltu

I ategu'r ymgynghoriad, cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion a SPUC (Society for the Protection of Unborn Children) er mwyn egluro natur y cynnig. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd rhwng swyddogion ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac fe dynnwyd sylw at yr ymgynghoriad mewn amrywiol gyfarfodydd â chlinigwyr.

Golwg gyffredinol ar yr ymatebion

Daeth cyfanswm o 802 o ymatebion i law. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y grŵp 'pleidiol i fywyd' SPUC a'i aelodau, ac fe ddaeth cyfran sylweddol o'r ymatebion hynny gan unigolion o Ogledd Iwerddon.

Ceir golwg gyffredinol ar yr ymatebion, negyddol a chadarnhaol, isod. Mae crynodeb lawn o'r holl ymatebion a ddaeth i law yn Atodiad 1.

Negyddol

Fel nodwyd uchod, daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion negyddol gan y grŵp 'pleidiol i fywyd' SPUC a'i aelodau. Roedd pob un o'r ymatebion hynny yn gwrthwynebu am yr un rhesymau yn union, felly maent yn cael eu trin gyda'i gilydd. Mae'r rhesymau dros wrthwynebu wedi'u hamlinellu isod ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i bob un.

Gwrthwynebiad moesol i erthyliaid yn gyffredinol

Roedd dogfen yr ymgynghoriad yn datgan bod gwasanaethau terfynu beichiogrwydd ym Mhrydain Fawr wedi'u rheoli gan Ddeddf Erthylu 1967. Mae'n fater a gedwir yn ôl o dan y setliad datganoli, ac felly nid yw wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Mae darpariaeth gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn parhau i fod yn hawl gofal iechyd cyfreithiol yng Nghymru dan Ddeddf Erthylu 1967. Nid oedd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar wasanaethau terfynu beichiogrwydd yn gyffredinol, ond yn hytrach ymestyn y ddarpariaeth gofal iechyd cyfreithiol presennol i garfan benodol o fenywod, hynny yw y rhai o Ogledd Iwerddon. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn agor trafodaeth foisol.

Tanseilio cyfraith a setliad datganoli Gogledd Iwerddon

Mae nifer o'r ymatebion yn awgrymu bod cynigion Llywodraeth Cymru yn tanseilio penderfyniad democrataidd Cynulliad Gogledd Iwerddon i beidio â chaniatáu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Ngogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw terfynu beichiogrwydd yn cael ei ganiatáu na'i ariannu ond o dan rai amgylchiadau cyfyng iawn; os bydd bywyd menyw mewn perygl neu fod perygl parhaol neu ddifrifol i'w hiechyd corfforol neu feddyliol. Nid yw trais rhywiol, llosgach nac abnormaledd yn y ffetws yn amgylchiadau sy'n caniatáu i feichiogrwydd gael ei derfynu'n gyfreithlon yno. O ganlyniad, bob blwyddyn mae cannoedd o fenywod o Ogledd Iwerddon yn teithio i Brydain Fawr er mwyn cyrraedd at wasanaethau terfynu beichiogrwydd. Yn y gorffennol, roedd mwyafrif llethol y menywod hynny yn teithio i Loegr.

Mae cynnig Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gyfraith a darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru yn unig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai menywod o Ogledd Iwerddon allu cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru, yn yr un modd â menywod sy'n byw yng Nghymru.

Defnyddio arian cyhoeddus i ariannu'r ddarpariaeth hon

Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn anfodlon â'r syniad o ddargyfeirio arian a neilltuwyd i GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod sy'n byw fel arfer yng Ngogledd Iwerddon. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi cadarnhau mai ychydig iawn o fenywod o Ogledd Iwerddon sydd wedi defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn eu hardaloedd yn hanesyddol, ac mae disgwyl i effaith y cynnig hwn fod yn fach iawn. Felly disgwylir y byddai modd i unrhyw wasanaethau terfynu beichiogrwydd a fyddai'n cael eu darparu gael eu hamsugno o fewn y ddarpariaeth ariannol bresennol. Mae'r cynnig hefyd yn darparu ar gyfer adolygiad chwe mis o'r cynnig, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi unrhyw effaith.

Proses gyfreithiol

Roedd nifer o'r ymatebion yn mynegi pryder bod y cynigion yn cynnwys gwneud Cyfarwyddyd ysgrifenedig yn gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol Cymru i sicrhau bod gwasanaethau terfynu beichiogrwydd ar gael i fenywod o Ogledd Iwerddon, yn hytrach na llwybr mwy ffurfiol a fyddai, yn eu barn nhw, yn destun mwy o graffu.

Nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynnig hwn - mae gan Weinidogion Cymru bwerau eisoes i gyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i arfer unrhyw rai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru dan Ddeddf 2006, gan gynnwys swyddogaethau yn ymwneud â gwasanaethau meddygol a gwasanaethau eraill ar gyfer gofalu am fenywod beichiog.

Mae cynsail ar gyfer defnyddio cyfarwyddiadau i newid y prawf preswyllo arferol - ym mis Chwefror 2017, cyhoeddwyd cyfarwyddyd ysgrifenedig i ddarparu ar gyfer trin carcharorion fel preswylwyr arferol y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

Cadarnhaol

Daeth 14 ymateb i law yn cefnogi'r cynnig. Daeth yr ymatebion hynny yn bennaf gan gyrff clinigol, gan gynnwys Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, Coleg Brenhinol y Bydwagedd, Gwasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd Prydain, Ymarferwyr Cyffredinol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Phwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru. Cafwyd ymatebion cadarnhaol hefyd gan Cymorth i Ferched ac Ymgyrch Hawl i Erthylu Gwyddelod Llundain.

Roedd yr ymatebion cadarnhaol gan gyrff clinigol yn gyffredinol yn pwysleisio'r angen i ddarparu gofal iechyd diogel i fenywod o Ogledd Iwerddon. Roedd hyn hefyd yn cael ei grybwyll yn yr ymatebion gan grwpiau menywod, a oedd hefyd yn pwysleisio hawl menywod Gogledd Iwerddon i ddewis defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd.

Cododd y cyrff clinigol nifer o faterion pwysig ynghylch llwybr gofal menywod nad ydynt yn byw yng Nghymru fel arfer, ac fe fydd swyddogion yn ystyried y materion hynny wrth sefydlu'r llwybr gofal priodol.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r ddarpariaeth ar waith yn unol â'r cynnig. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chyrff clinigol i drefnu llwybrau gofal effeithiol i fenywod sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon, i gael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru, gan sicrhau bod gofal iechyd priodol yn cael ei ddarparu.